



Y Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd

Cyfarfod Uwchgyfeirio

Cyfarfod dros Microsoft Teams

17 Rhagfyr 2020

Yn bresennol	
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	
Laura Armitt (LA)	Cynghorydd Gweithredol a Swyddog Cymorth Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Suzi Graham (SG)	Swyddog Polisi ac Ymchwil
Hannah Jenkins-Jones (HJJ)	Arweinydd Strategol ar gyfer Craffu, Sicrwydd a Chydraddoldeb
Lee Jones (LJ) (CADEIRYDD)	Prif Weithredwr
Sarah Mahon (SM)	Swyddog Ymgysylltu a Sicrwydd
Nia Scourfield (NS)	Swyddog Cymorth Llywodraethu
Jackie Trow (JT)	Arweinydd Strategol ar gyfer Ansawdd, Safonau a Chydymffurfiaeth
Heddlu De Cymru	
Yr Uwch-arolygydd Marc Attwell	Pennaeth Perfformiad a Sicrwydd
Y Dirprwy Brif Gwnstabl Jennifer Gilmer (JG)	Y Dirprwy Brif Gwnstabl
Y Prif Arolygydd Scott Lloyd (SL)	Arweinydd y Rhaglen Ar-lein Unigol
Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Joanna Maal (JM)	Prif Gwnstabl Cynorthwyol
Caroline Smart (CS)	Gwasanaethau Corfforaethol – Rheoli Corfforaethol
Rich Watkins (RW)	Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd
Carol Woodward (CW)	Rheolwr Sicrwydd ac Arolygu

Rhif	Eitem	Cynnwys
1.	Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau	1.1 Croesawodd LJ y rhai a oedd yn bresennol a gwnaed y cyflwyniadau. Nodwyd ymddiheuriadau gan Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Emma Wools.
2.	Cofnodion y cyfarfod blaenorol: Cyfarfod at Wraidd y Mater ar Ymgysylltu â Chymunedau	2.1 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod at wraidd y mater blaenorol ar ymgysylltu â chymunedau yn gofnod gwir. Cytunwyd yr ymdrinnid â'r camau gweithredu a'r argymhellion y tu allan i'r cyfarfod. Nododd CS fod yr holl argymhellion wedi'u pennu i swyddogion/staff enwebedig er mwyn iddynt weithredu arnynt ac y byddai'r enwau hyn yn cael eu rhannu ag NS.
3.	Argymhellion o'r cyfarfod At Wraidd y Mater: Ymgysylltu â Chymunedau	<p>3.1 Rhoddodd HJJ grynoded o'r argymhellion a awgrymwyd yr oedd tîm y Comisiynydd wedi'u llunio yn dilyn y cyfarfod at wraidd y mater diwethaf ar ymgysylltu â chymunedau.</p> <p>3.2 Nododd HJJ y chwe argymhelliad yn yr adroddiad, a oedd yn cynnwys y ffordd roedd materion ac adborth a oedd yn deillio o weithgarwch ymgysylltu â chymunedau yn cael eu monitro a'u rhannu ym mhob rhan o'r heddlu. Roedd yr argymhellion eraill yn cyfeirio at y broses o ymgorffori'r porth ymgysylltu ymhellach, drwy atgyfnerthu'r neges y dylid cofnodi'r holl weithgarwch ymgysylltu, adborth a chamau a gymerir. Roedd HJJ o'r farn ei bod yn bwysig sefydlu systemau gwell i fesur effeithiolrwydd a chanlyniadau, gan gynnwys a oedd y gwaith yn arwain at unrhyw welliannau o ran hyder y gymuned neu gynnydd yn nifer y digwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt. Roedd HJJ hefyd o'r farn ei bod yn bwysig cydnabod yr holl waith ymgysylltu a oedd yn cael ei wneud ym mhob Uned Reoli Sylfaenol a'i fod yn cael ei gyfleu i bob rhan o'r heddlu. Cyfeiriodd HJJ at adborth diweddar gan y cyhoedd, a oedd yn cynnwys yr angen i glywed am straeon cadarnhaol a chanlyniadau cadarnhaol achosion, a allai gynyddu nifer y digwyddiadau y rhoddir gwybod amdanynt a hyder y gymuned. Gofynnodd HJJ i'r heddlu ystyried ychwanegu elfen straeon cadarnhaol at y strategaeth ymgysylltu barhaus. Gofynnodd HJJ am i ganlyniadau cyfarfodydd y grŵp cydlyniant cymunedol a'r hyn a ddysgwyd ohonynt gael eu cyfleu i bob rhan o'r heddlu yn ogystal â swyddfa'r Comisiynydd er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o densiynau cymunedol.</p> <p>3.3 Cyfeiriodd SM at y system negeseua cymunedol a oedd ar waith yn flaenorol, a oedd yn galluogi dwy o'r Unedau Rheoli Sylfaenol i anfon gwybodaeth at gronfa o bobl yng nghymunedau De Cymru yn eu dewis fformatau. Nododd SM ei bod hi a Richard Watkins wedi trafod yr opsiynau ar gyfer ailsefydlu'r system hon ledled ardal yr heddlu. Byddai hyn yn darparu llwyfan cyson ar gyfer lledaenu gwybodaeth a byddai'n helpu gyda'r gwaith ymgynghori sy'n cael ei wneud gan yr heddlu a thîm y Comisiynydd. Ystyriwyd ei bod yn bwysig nodi'r syniad hwn fel rhan o'r adroddiad craffu ar yr argymhellion.</p>

		<p>3.5 Nododd JG ei bod yn credu bod yr argymhellion yn deg ac yn gyflawnadwy. Yn ei barn hi, roeddent yn adlewyrchu'r gwaith a oedd yn mynd rhagddo mewn perthynas â Chynllun Cyflawni newydd y Prif Gwnstabl. Roedd JG hefyd yn cytuno bod angen ystyried sut i ymgorffori'r ddarpariaeth a phwysigrwydd mesur effeithiolrwydd gweithgarwch ymgysylltu er mwyn meithrin hyder y cyhoedd.</p> <p>3.6 Cyfeiriodd JM at rai argymhellion yn yr adroddiad lle roedd gwaith eisoes yn mynd rhagddo. Tynnodd sylw at achos diweddar, lle y darparodd dioddefwr ymosodiad rhywiol difrifol fyfyrddod ar fideo ar ei phrofiad o roi gwybod am y digwyddiad i'r heddlu. Nododd fod y swyddogion cyfathrebu lleol yn awyddus i adeiladu ar y mathau hyn o enghreifftiau er mwyn annog pobl i roi gwybod am ddigwyddiadau a meithrin hyder. Nododd JM fod y cyfarfodydd ynghylch yr effaith ar y gymuned yn cael eu cynnal bob pythefnos er mwyn trafod effaith Covid-19 ar gymunedau, a oedd wedi datblygu ychydig, ac, o ganlyniad i hynny, fod materion yn cael eu bwydo i grwpiau cydlyniant cymunedol. Croesawyd y diweddariadau hyn.</p> <p>3.7 Nododd MA fod y Tîm Mewnwelediadau, a oedd yn gwneud ymchwil i foddhad dioddefwyr, yn gweithio ar y ffordd orau o ddefnyddio adborth i ddiwallu anghenion dioddefwyr trosedd. Cyfeiriodd at lwyfannau yr oedd heddluoedd eraill yn eu defnyddio i gasglu barn cymunedau. Rhoddodd enghraifft o adnodd llenyddiaeth ymgysylltu â chymunedau, a ddefnyddir gan Ganolfannau Gwasanaethau Cyhoeddus, lle roedd cod Ymateb Cyflym (QR) wedi'i ymgorffori mewn dogfennau a oedd yn cael eu cysylltu â phorth ymgysylltu drwy hyperddolen er mwyn cofnodi materion a gwybodaeth at ddibenion dysgu pellach. Roedd gwaith ymchwil yn y maes hwn yn mynd rhagddo.</p> <p>3.8 Croesawyd yr argymhellion a chytunwyd arnynt.</p>
4.	<p>Y wybodaeth ddiweddaraf am Dechnoleg Adnabod Wynebaw Awtomataidd.</p>	<p>4.1 Gwahoddodd LJ SL i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am dechnoleg Adnabod Wynebaw Awtomataidd. Cyfeiriodd SL at yr adolygiad barnwrol a'r apêl a oedd wedi'i chynnal yn ystod yr haf a nododd fod penderfyniad y llys apêl yn gadarnhaol, ar y cyfan. Awgrymodd fod fframwaith cyfreithiol digonol i barhau â'r gwaith hwn. Nododd fod gwaith yn dal i fynd rhagddo gyda'r Coleg Plismona i lunio ffurflen ddrafft a fyddai'n cael ei chyflwyno i gyfarfod y bwrdd cenedlaethol, a fyddai'n cael ei gynnal ar 28 Ionawr 2021. Cadarnhaodd hefyd, ar yr amod y byddai'r ffurflen ddrafft honno'n cael ei chymeradwyo, y byddai ymgynghoriad ehangach yn cael ei gynnal, a fyddai'n llywio defnydd yr heddlu ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith o dechnoleg adnabod wynebaw byw.</p> <p>4.2 Nododd SL fod yr heddlu yn gweithio gyda phartneriaid mewn prifysgolion ar werthusiad academiaidd. Roedd y cwmpas wedi'i addasu er mwyn sicrhau y byddai profion gwahaniaethau demograffig a phrofion rhagfarn ar gyfer technoleg adnabod wynebaw byw a thechnoleg adnabod wynebaw ôl-syllol.</p> <p>4.3 Gofynnodd JT a oedd unrhyw gwynion wedi'u cofnodi a wnaed gan aelodau o'r cyhoedd lle roedd unigolion dan amheuaeth wedi'u hadnabod gan ddefnyddio technoleg adnabod wynebaw awtomataidd a lle yr ymdriniwyd â'r cwynion wedi hynny. Dywedodd SL fod ganddynt un enghraifft o gŵyn o'r fath ar gyfer technoleg adnabod wynebaw awtomataidd ac un enghraifft ar gyfer technoleg adnabod wynebaw ôl-syllol. Gofynnodd JT hefyd a oedd straeon lle roedd unigolion dan amheuaeth wedi'u hadnabod yn cael eu defnyddio i ymgysylltu ag aelodau o'r</p>

		<p>cyhoedd, fel y byddent yn deall manteision technoleg adnabod wynebau awtomataidd yn well. Nododd SL, ers i dechnoleg adnabod wynebau ôl-syllol gael ei chyflwyno yn 2017, fod bron i 300 o unigolion wedi'u hadnabod. Nododd fod tua hanner y rhai wedi arwain at ryw fath o gam gweithredu, er enghraifft arestio neu roi rhybuddiad ar gyfer amrywiaeth o droseddau gwahanol, megis llofruddiaeth a lladrata. Gofynnodd JT am gopi o'r asesiad effaith data a chytunodd SL i'w rannu â thîm y Comisiynydd.</p> <p>4.4 Cyfeiriodd HJ at yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a oedd yn cael ei gynnal ar gyfer technoleg adnabod wynebau awtomataidd a diolchodd i SL am ei chynnwys hi a'r tîm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ei waith diweddar gyda Phrifysgol De Cymru. Gofynnodd a oedd unrhyw ddiweddariad o ran pryd y byddai'r gwaith yn dechrau ac a oedd y gweithgarwch ymgysylltu â chymunedau ehangach a drafodwyd yn dal i gael ei ystyried. Nododd SL fod Prifysgol De Cymru wedi cael cais i ddiwygio ei dogfen gwmpasu a chyfeiriodd at un o'r heriau sy'n gysylltiedig â chynnal profion gwahaniaethau demograffig mewn amgylchedd gweithredol. Nododd y byddai angen iddynt sicrhau bod y fethodoleg a oedd yn cael ei defnyddio gan blismona mewn perthynas â gwahaniaethau demograffig yn gyson ac yn gywir. Nododd SL y byddai'r Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu cynnal yn unol ag astudiaeth y Brifysgol, gan ddefnyddio gweithgarwch ymgysylltu â chymunedau i ganolbwyntio ar bobl â nodweddion gwarchoddedig a'r effaith y gallai'r dechnoleg hon ei chael arnynt.</p> <p>4.5 Gwahoddodd LJ SL i roi diweddariad yng nghyfarfod nesaf Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd yr Heddlu. Gofynnodd hefyd pryd y byddai'r canllawiau ar gael ac, felly, pryd y byddai'n bosibl i dechnoleg adnabod wynebau awtomataidd gael ei defnyddio'n fwy rheolaidd. Roedd SL yn gobeithio y byddai canllawiau cenedlaethol yn barod erbyn mis Ebrill neu fis Mai 2021 ac y byddai dogfennau polisi Heddlu De Cymru yn cael eu diwygio er mwyn adlewyrchu hyn.</p> <p>4.6 Nodwyd bod technoleg adnabod wynebau awtomataidd wedi'i thrafod mewn cyfarfod diweddar o'r Grŵp Seneddol Hollbleidiol, a oedd yn cynnwys Comisiynydd yr Heddlu Metropolitaidd a Heddlu De Cymru. Yn ystod y cyfarfod, cydnabuwyd yn glir fod Heddlu De Cymru yn arwain y ffordd yn y maes hwn.</p>
5.	<p>Diweddariad ar Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi</p>	<p>5.1 Gwahoddodd LJ CW i roi diweddariad ar Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi. Nododd CW fod dau arolygiad wedi'u cynnal yn yr heddlu yn ystod y flwyddyn (mewn perthynas â'r Ffordd y mae'r Heddlu yn Rheoli Protestiadau a'r Ymateb Plismona i Covid-19). Nododd CW fod adborth cadarnhaol wedi'i dderbyn a bod sylwadau ar arferion da wedi'u cyflwyno i'r heddlu, yn ogystal â rhai meysydd a oedd yn destun pryder i'w hystyried mewn perthynas â pharhau i ddelio â phandemig Covid-19. Nododd CW fod cyfeiriadau yn yr adborth at y ffaith bod yr heddlu wedi ymgysylltu'n gadarnhaol ag awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru ynghylch newidiadau i ddeddfwriaeth yn ystod y cyfnod hwn. Nododd CW fod hyn yn debygol o gael ei adlewyrchu yn y canlyniadau ffurfiol. Byddai'r adroddiad thematig yn cael ei gyhoeddi yn 2021.</p> <p>5.2 Gofynnodd JT a oedd Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi wedi ystyried hinsawdd plismona yn ystod pandemig Covid-19 mewn perthynas â phrotestio a'r hawl i brotestio yn erbyn rheoliadau iechyd y cyhoedd. Nododd CW fod yr arolygiad yn</p>

		<p>ymwneud â defnyddio pwerau'r heddlu a ph'un a oedd y rhain yn effeithiol ai peidio. Cadarnhaodd CW fod cwestiynau wedi'u gofyn am y ffordd roedd yr heddlu yn rheoli hawliau protestwyr yn erbyn hawliau'r gymuned. Ymatebodd MA hefyd drwy nodi nad oedd protestiadau gwleidyddol wedi'u gwahardd ar ddechrau'r cyfnod clo ac mai dyna pam roedd pobl wedi cael protestio mewn perthynas ag ymgyrch Mae Bywydau Du o Bwys, er enghraifft.</p> <p>5.3 Nododd LJ fod Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi wedi siarad ag NS a HJJ yn ystod ei harolygiad o weithgarwch yn nalfeydd yr heddlu yn ystod pandemig Covid-19. Roedd NS a HJJ wedi pwysleisio'r gydberthynas waith gadarnhaol rhwng swyddfa'r Comisiynydd a'r heddlu mewn perthynas â chynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd a'u bod wedi nodi eu bod o'r farn bod dalfeydd yr heddlu wedi parhau i weithio'n dda yn ystod y pandemig. Roedd staff dalfeydd fel petaent wedi addasu'n dda yn ystod y cyfnod hwn.</p> <p>5.4 Cyfeiriodd CW at Ddatganiad Rheoli'r Heddlu a nododd fod Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi wedi dileu'r angen i'r rhain gael eu cyflwyno ar yr adeg ddisgwyliedig oherwydd pandemig Covid-19. Fodd bynnag, byddai'r heddlu yn parhau â'r gwaith paratoi arferol ac, ar ôl iddo gael ei gwblhau, byddai'n cael ei rannu â thîm y Comisiynydd.</p> <p>5.5 Cyfeiriodd CW at yr adroddiad diweddaraf a gyhoeddwyd gan Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi a oedd yn nodi ei chanfyddiadau o'r uwch-gŵyn ynghylch statws mewn fudo a rhannu data â'r Swyddfa Gartref. Nododd MA fod ganddo amheuan ynghylch canlyniad yr uwch-gŵyn hon am fod y gydberthynas rhwng heddluoedd a'r Gwasanaeth Mewn fudo yn hollbwysig. Nododd ei fod wedi paratoi datganiad o gyngor i'w rannu â Phrif Swyddogion ynghylch yr argymhellion yn yr adroddiad a ffordd bosibl ymlaen.</p> <p>5.6 Mewn perthynas ag adroddiad diweddar Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi ar fechnïaeth a Rhyddhau o dan Ymchwiliad, gofynnodd JT a oedd nifer yr unigolion a oedd yn cael eu rhyddhau dan ymchwiliad yn cael ei fonitro. Nododd JM, pan gyflwynwyd newidiadau i'r ddeddfwriaeth ynglŷn â mechnïaeth i ddechrau, fod Heddlu De Cymru wedi sefydlu tîm mechnïaeth i ymdrin â hyn. Nododd hefyd fod nifer yr unigolion sy'n cael eu rhyddhau dan ymchwiliad yn cael ei drafod a'i fonitro drwy wahanol fforymau megis cyfarfodydd o fewn yr heddlu.</p>
6.	<p>Cydraddoldeb Hiliol: Diweddariad ar gyhoeddi'r cynllun a sesiynau 'Let's talk about Race'</p>	<p>6.1 Gofynnodd LJ am y wybodaeth ddiweddaraf am statws pŵ y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol. Gofynnodd HJJ pryd y byddai'r ymgynghoriad yn dechrau ac a oedd dyddiad cyhoeddi wedi'i bennu. Cytunwyd y byddai'r ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn y flwyddyn newydd ac y byddai'r cynllun yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.</p> <p>6.2 Pwysleisiodd HJJ fod Emma Wools yn awyddus i sefydlu amserlen ar gyfer pob maes thematig yn y cynllun ac i ryngddibyniaethau rhwng meysydd thematig gael eu hystyried yn ofalus. Byddai hyn yn golygu sicrhau bod dyddiadau cwblhau meysydd thematig yn cael eu trefnu'n briodol yn erbyn ei gilydd.</p> <p>6.3 Cyfeiriodd CS at y sesiynau 'Let's talk about Race' a nododd mai ychydig o sesiynau a oedd wedi cael eu cynnal a bod nifer yr unigolion a oedd yn bresennol ynddynt yn fach oherwydd y tarfu a achoswyd gan bandemig Covid-19 a'r angen i symud swyddogion i weithio yn y rheng</p>

		flaen. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i aildechrau'r sesiynau ar-lein ond nodwyd ei bod yn anodd annog cynulleidfaoedd i gyfranogi yn ystod sesiynau ar-lein. Roedd HJJ yn cytuno ac ar ôl cymryd rhan mewn sesiwn ar-lein yn ddiweddar. Nododd CS fod gwaith yn mynd rhagddo i ystyried sut i gael y gorau o'r sesiynau a bod ymrwymiad i'w cyflwyno o hyd.
7.	Unrhyw Fater Arall	<p>7.1 Cyfeiriodd LJ at flaengynllunio yn y flwyddyn newydd er mwyn sicrhau bod Cynllun Cyflawni'r Prif Gwnstabl a chynllun y Comisiynydd yn cyd-fynd â'i gilydd. Awgrymodd LJ y dylai tîm CS a thîm y Comisiynydd ddod at ei gilydd i drafod hyn er mwyn llywio'r blaengynllun craffu.</p> <p>7.2 Diolchodd LJ i JT am ei chyfraniad sylweddol at y bwrdd yn ystod ei hamser gyda thîm y Comisiynydd a dymunodd yn dda iddi yn ei rôl newydd. Nododd y byddai'n gadael Swyddfa'r Comisiynydd ym mis Ionawr 2021.</p> <p>7.3 Rhoddodd SM ddiweddariad ar y gweithgarwch ymgysylltu a oedd wedi'i gynnal yn ddiweddar. Nododd SM fod y Comisiynydd wedi lansio'r ymgynghoriad 'Ein heddlu, Ein cymuned' ym mis Tachwedd. Roedd wedi rhoi cyfle i'r cyhoedd drafod y materion sy'n effeithio ar bobl yn eu cymuned a'r gwasanaeth a ddarperir gan Heddlu De Cymru. Nododd SM y byddai dadansoddiad manwl yn cael ei gynnal ac y byddai'r canlyniadau yn cael eu rhannu â'r heddlu. Nododd SJ hefyd fod fforwm 'Sgwrs Lleisiau Ifanc' wedi'i lansio, a oedd yn rhoi cyfle i bobl ifanc siarad â'r Comisiynydd a chynrychiolwyr o Heddlu De Cymru a rhannu eu barn a'u profiadau. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y fforwm ar-lein ym mis Rhagfyr a chymerodd dros 40 o bobl ifanc ran yn y sesiwn.</p> <p>7.4 Diolchodd LJ i'r bwrdd am ei gyfraniad a chadarnhaodd y byddai unrhyw gamau gweithredu yn cael eu dosbarthu yn dilyn y cyfarfod ac y byddai themâu allweddol yn cael eu hailystyried mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.</p>

Tabl Camau Gweithredu

Dyddiad	Cyfarfod	Cam Gweithredu
17/12/2020	Cyfarfod Uwchgyfeirio	Bydd yr heddlu yn rhannu copi o'r asesiad effaith o ddata technoleg adnabod wynebaw awtomataidd â thîm y Comisiynydd.

17/12/2020	Cyfarfod Uwchgyfeirio	Caiff y canlyniadau a'r hyn a ddysgwyd o gyfarfodydd y grŵp cydlyniant cymunedol eu rhannu rhwng pob rhan o'r heddlu yn ogystal â thîm y Comisiynydd.
17/12/2020	Cyfarfod Uwchgyfeirio	Bydd yr heddlu yn rhannu enwau pwyntiau cyswllt unigol a bennwyd i'r argymhellion ag NS.